# Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales



"Trwy gydweithio a chydgysylltu ein hymdrechion, gobaith Archwilydd Cyffredinol Cymru a minnau yw cyfrannu at yr amgylchedd gwasanaethau cyhoeddus, lle mae penderfyniadau cynaliadwy yn darparu gwasanaethau o ansawdd da ar gyfer y genhedlaeth bresennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae ein Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn dangos y modd yr ydym yn bwriadu cyflawni hynny."

**Sophie Howe**

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

"Mae cael dogfen sy'n nodi'r modd yr ydym yn bwriadu cydweithio yn darparu eglurder defnyddiol ar gyfer ein sefydliadau, yn ogystal â'r cyrff cyhoeddus y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu cwmpasu. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a minnau wedi bod yn cydweithio'n agos ers i'r Ddeddf ddod i rym. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i barhau i wneud hynny, er mwyn i ni allu defnyddio ein priod adnoddau ac arbenigedd yn y ffordd orau posibl."

**Huw Vaughan-Thomas**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pam mae angen cytundeb arnom | 4 |
| Yr hyn mae’n ofynnol i ni ei wneud | 4 |
| Yr egwyddorion sy’n llywio ein gwaith | 7 |
| Sut byddwn yn gweithio | 8 |

## Pam mae angen Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arnom

1 Fel Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, rydym yn cydnabod pwysigrwydd nodi trefniadau clir ar gyfer sut byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar faterion strategol a gweithredol. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn rhoi'r sail ar gyfer sut byddwn yn cydweithredu er mwyn cyflwyno'n llwyddiannus ar feysydd o ddiddordeb cyffredin ac, yn benodol, ar y cyfrifoldebau cysylltiedig a nodwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf).[1]

## Yr hyn mae'n ofynnol i ni ei wneud

2 Fel Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, mae gennym gyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf. Nodir trosolwg o'r cyfrifoldebau hyn ar dudalennau 5 a 6.

1 Ni ddylai dim byd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn gael ei ddehongli fel llyffetheirio ein disgresiwn wrth arfer swyddogaethau statudol. Os bydd gwrthdaro'n codi rhwng y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn a statud, y statud sy'n drech.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**

Mae'r Ddeddf yn gosod y ddyletswydd gyffredinol ganlynol ar y Comisiynydd:

a) Hyrwyddo egwyddor datblygu cynaliadwy, yn benodol:

i. gweithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac

ii. annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o ystyriaeth i effaith dymor hir y pethau maent yn eu gwneud, a

b) monitro ac asesu at y diben hwnnw i ba raddau mae amcanion llesiant a gafodd eu pennu gan gyrff cyhoeddus yn cael eu bodloni.

Wrth ymgymryd â'r ddyletswydd gyffredinol hon, gall y Comisiynydd ymgymryd ag ystod o swyddogaethau. Mae'r rhain yn ymwneud â darparu cyngor neu gymorth, codi ymwybyddiaeth ac annog arfer gorau. Gall hefyd gynnal ymchwil neu astudiaethau i feysydd penodol.

Gall y Comisiynydd hefyd gynnal adolygiad i ba raddau mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor pethau mae'r corff yn eu gwneud o dan adran 3 y Ddeddf (y ddyletswydd llesiant i ymgymryd â datblygu cynaliadwy). Wrth gynnal adolygiad, gall adolygiadau'r Comisiynydd ystyried:

a) y camau mae'r corff wedi'u cymryd neu'n cynnig eu cymryd er mwyn bodloni ei amcanion llesiant;

b) i ba raddau mae'r corff yn bodloni ei amcanion llesiant;

c) a yw corff wedi pennu amcanion llesiant a chymryd camau i'w bodloni'n unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Wrth gynnal adolygiad, rhaid i'r Comisiynydd ystyried unrhyw archwiliad o'r corff a gynhelir gan yr Archwilydd Cyffredinol dan adran 15 o'r Ddeddf.

Gall y Comisiynydd wneud argymhellion fel rhan o adolygiad a rhaid iddi gyhoeddi adroddiad o adolygiad.

Rhaid i'r Comisiynydd gynnal un adolygiad o ddau neu fwy o gyrff cyhoeddus.

Rhaid i'r Comisiynydd adrodd unwaith bob cylch etholiadol Cynulliad Cenedlaethol ei hasesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn pennu a chyflawni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol).

Ffynhonnell: Rhan 3 **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Yr Archwilydd Cyffredinol**

Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliadau ar 44 corff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau maent wedi gweithredu yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a) osod amcanion llesiant, a

b) chymryd camau i gyflawni’r amcanion hynny.

Rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol gynnal ymchwiliad o bob corff o leiaf unwaith mewn pum mlynedd a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ar yr ymchwiliadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru cyn pob etholiad Cynulliad.

Wrth gynnal ymchwiliad, rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol ystyried unrhyw gyngor neu gymorth a roddir i’r corff cyhoeddus, neu unrhyw adolygiad o'r corff a'r argymhellion a wnaed iddo gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Rhaid iddo hefyd ymgynghori â’r Comisiynydd.

Ffynhonnell: Adran 15 **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015**

3 Yn ychwanegol at y Ddeddf, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth arall, megis Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a deddfwriaeth sefydlu cyrff cyhoeddus amrywiol. Yn gryno, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru, ac mae’n ymchwilio i sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus. Bob blwyddyn mae’r Archwilydd Cyffredinol, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn cyflwyno rhaglen helaeth ond gymesur o waith archwilio allanol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn nodi arfer da ar draws rhychwant llawn gwaith archwilio’r Archwilydd Cyffredinol ac yn lledaenu hyn i gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid ehangach.

# Yr egwyddorion sy’n arwain ein gwaith

4 Mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy ac egwyddorion archwilio cyhoeddus yn arwain y ffordd mae ein priod sefydliadau'n gwneud ein gwaith (Atodiad 1).

5 Mae’r egwyddor datblygu cynaliadwy’n ei gwneud hi’n ofynnol gweithredu mewn modd sy’n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Er mwyn gweithredu yn y modd hwnnw, mae angen i gyrff cyhoeddus gynnal y ‘pum ffordd o weithio’, fel a ganlyn:

- Edrych i’r tymor hir fel na fyddwn yn peryglu gallu cenedlaethau’r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- Cymryd ymagwedd integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.
- Cynnwys amrywiaeth o’r boblogaeth yn y penderfyniadau sy’n effeithio arni.
- Gweithio gydag eraill mewn ffordd gydweithredol er mwyn dod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir.
- Deall achosion gwreiddiol problemau er mwyn eu hatal rhag digwydd.[2]

Mae’r Comisiynydd wedi ymrwymo i roi'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth wraidd ei gwaith a gwaith ei thîm fel y gallant fod y newid maent am ei weld mewn eraill.

6 Yr egwyddorion archwilio cyhoeddus, sy’n sail i waith archwilio’r Archwilydd Cyffredinol, yw:

- canolbwyntio ar y cyhoedd;
- bod yn annibynnol;
- bod yn gymesur;
- bod yn atebol.

Rhaid i archwilwyr wneud eu gwaith yn gyson yn unol â’r egwyddorion hyn.[3]

7 Er nad yw’n ofynnol iddo ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy, mae’r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn gwneud gwaith er mwyn sicrhau bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy’n cael ei hadlewyrchu’n ystyrlon mewn arfer archwilio.

2 Llywodraeth Cymru, **Cydamcanu: Cydymdrechu, Canllaw Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, 2016

3 I gael rhagor o wybodaeth am sut mae’r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal ei swyddogaethau, darllenwch y Cod Ymarfer Archwilio ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru

# Sut byddwn yn gweithio

Fel Archwilydd Cyffredinol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, byddwn yn sicrhau bod ein sefydliadau'n gweithio yn y ffyrdd canlynol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n heffeithiolrwydd ac yn gwneud y defnydd gorau o'n harbenigedd ac adnoddau cyfunol:

- a Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn datblygu barn gyffredin ar sut y gallai arfer da edrych a nodi a hyrwyddo arfer da.
- b Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn osgoi gosod disgwyliadau dryslyd neu groes ar gyrff cyhoeddus.
- c Byddwn yn defnyddio dull o adolygu sy'n cydnabod pwysigrwydd methu fel rhan o ddysgu a gwella.
- ch Byddwn yn parhau i feithrin gwybodaeth ac arbenigedd priodol yn ein sefydliadau a byddwn yn rhannu hynny er mwyn helpu sefydliadau eraill.
- d Byddwn yn rhannu ac yn ystyried gwaith ein gilydd er mwyn helpu fel bod gennym y wybodaeth gywir er mwyn ymgymryd â'n priod gyfrifoldebau priodol yn y ffordd orau.
- dd Byddwn yn ceisio dibynnu ar waith ein gilydd lle y bo'n briodol, gan gronni ein priod arbenigedd a gwybodaeth.
- e Byddwn yn ceisio sicrhau bod gwaith rydym yn ei wneud ym mhob corff cyhoeddus yn gydgysylltiedig ac yn ategol.

Drwy gydweithredu a chydlynu ein hymdrechion, rydym yn gobeithio cyfrannu at amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus lle:

- a Mae cyrff cyhoeddus yn defnyddio penderfyniadau cynaliadwy er mwyn darparu gwasanaethau o ansawdd da sy'n hyrwyddo llesiant pobl Cymru, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- b Mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Ddeddf, gan ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel modd o sbarduno newid cadarnhaol.
- c Mae cyrff cyhoeddus yn uchelgeisiol yn eu hymdrechion i wella ac yn fodlon ac yn gallu cymryd risgiau sydd wedi'u rheoli'n dda.
- ch Mae cyrff cyhoeddus yn dysgu o lwyddiant a methiant, o'u profiadau eu hunain a phrofiadau pobl eraill.
- d Mae cyrff cyhoeddus yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd i'w helpu er mwyn herio busnes fel arfer a gwella.

# Gweithio gyda'n gilydd

8 Mae pump maes penodol o dan y Ddeddf lle mae'r Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd â chyd-ddiddordeb neu gydgyfrifoldeb. Mae'r adrannau canlynol yn pennu sut byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar y rhain.

## Monitro ac asesu

9 Mae dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yn amlinellu'r cyfrifoldeb i fonitro ac asesu cyflawniad yr amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus.[4] I wneud hyn bydd y Comisiynydd yn casglu tystiolaeth trwy amryw o ddulliau gan gynnwys trwy unrhyw adolygiad a wneir o dan adran 20 o'r Ddeddf. Bydd gwaith a ymgymerwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cael ei ddefnyddio. Gall hyn gynnwys gwaith ymchwilio adran 15, yn ogystal â gwaith archwilio ehangach.

10 Byddwn yn datblygu rhaglen waith ar y cyd a fydd yn cynnwys trefniadau ar sut gall ein dau sefydliad gyfrannu gwybodaeth berthnasol sy'n cynorthwyo'r Comisiynydd i weithredu'i dyletswyddau.

## Ymchwiliadau ac adolygiadau

11 Gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal ymchwiliadau a gall y Comisiynydd gynnal adolygiadau, yn unol â'u swyddogaethau o dan adran 15 ac adran 20 y Ddeddf (gweler y crynodeb ar dudalen 2).

12 Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd er mwyn sicrhau dull cydlynol at ymchwiliadau ac adolygiadau, fel:

- bod ein gwaith yn ategol, yn gymesur ac â'r gwerth ac effaith fwyaf;
- ein bod yn helpu i wneud defnydd effeithlon o'n hadnoddau;
- ein bod yn helpu ein gilydd i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd i fonitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant a nodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.

13 Bydd y rhaglen waith ar y cyd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau adran 18 ac adolygiadau adran 20.

4 Adran 18(b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

**Cyflawni ymchwiliadau'r Archwilydd Cyffredinol ac adolygiadau'r Comisiynydd**


Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith ymchwilio ym mhob un o'r 44 o gyrff dros bum mlynedd, fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf.

Wrth wneud gwaith ymchwilio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r Comisiynydd ac yn ceisio ei chyngor fel y bo'n briodol (gweler tudalen 2). Er enghraifft, gallai'r Archwilydd Cyffredinol geisio cyngor y Comisiynydd wrth bennu cwmpas gwaith ymchwilio neu wrth nodi camau gwella ar ôl gwaith ymchwilio. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn ystyried unrhyw waith cysylltiedig mae'r Comisiynydd wedi'i wneud wrth gynllunio a chyflawni'r gwaith ymchwilio hwnnw.

Bydd y Comisiynydd yn ystyried gwaith ymchwilio'r Archwilydd Cyffredinol wrth benderfynu a oes angen adolygu un o'r 44 o gyrff. Mae gan y Comisiynydd y pŵer i gynnal adolygiadau, gan olygu nad yw'r nifer na'r mynychder yn ofyniad. O ystyried hyn, bydd y Comisiynydd dim ond yn cynnal adolygiadau yn y cyrff hynny lle mae o'r farn bod hynny'n angenrheidiol. Felly, bydd y Comisiynydd yn ystyried cynnal adolygiad lle mae gwaith ymchwilio'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at bryderon. Er y gall y Comisiynydd ystyried materion ehangach wrth gynnal adolygiad, bydd yn ceisio barn yr Archwilydd Cyffredinol fel rhan o'r broses o benderfynu a oes angen adolygiad.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd wrth wneud gwaith ymchwilio yn y dyfodol a gall ymchwilio ynghylch a yw corff wedi gweithredu ar yr argymhellion hynny.

Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn trafod yn barhaus i'w galluogi i weithio'n effeithiol, gan rannu gwaith perthnasol a chynnwys ei gilydd fel y bo'n briodol.


Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith ymchwilio ym mhob un o'r 44 o gyrff dros bum mlynedd
Wrth wneud gwaith ymchwilio, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ymgynghori â'r Comisiynydd ac yn ceisio ei chyngor fel y bo'n briodol
Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sylw i waith perthnasol a wneir gan y Comisiynydd
Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn trafod yn barhaus i rannu gwaith perthnasol fel y bo'n briodol.
Ymchwiliadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru
Adolygiadau'r Comisiynydd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Bydd y Comisiynydd yn ystyried gwaith ymchwilio'r Archwilydd Cyffredinol
Bydd y Comisiynydd yn ceisio barn yr Archwilydd Cyffredinol pan fydd yn ystyried os yw adolygiad yn angerheidiol
Bydd y Comisiynydd yn ystyried cynnal adolygiad lle mae gwaith ymchwilio'r Archwilydd Cyffredinol wedi tynnu sylw at bryderon
Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd wrth wneud gwaith ymchwilio yn y dyfodol a gall ymchwilio ynghylch a yw corff wedi gweithredu ar yr argymhellion hynny.

## Adroddiadau cenedlaethol

14 Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ganlyniadau ei ymchwiliadau.[5]

15 Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd gyhoeddi adroddiad sy'n cynnwys ei hasesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn pennu a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy (Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol).[6] Wrth lunio'r adroddiad, rhaid i'r Comisiynydd ystyried adroddiadau perthnasol yr Archwilydd Cyffredinol.

16 Rhaid cyflwyno'r ddau adroddiad hyn gerbron y Cynulliad Cenedlaethol o leiaf flwyddyn a diwrnod cyn etholiad cyffredinol arferol y Cynulliad Cenedlaethol.

17 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn cyfathrebu â'i gilydd fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r adroddiadau hyn.

## Cyngor

18 Gall y Comisiynydd roi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy.[7] Mae enghreifftiau o sut y caiff hyn ei wneud yn ymarferol yn cynnwys:

- Cyfarfodydd rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd ar faterion o ddiddordeb cyffredin.
- Cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd sy'n cynnig cyngor ar bennu cwmpas a datblygu gwaith perthnasol sy'n cael ei wneud gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- Cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd sy'n cefnogi staff Swyddfa Archwilio Cymru i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy a sut y gellir ei chymhwyso.
- Bydd y Comisiynydd yn rhannu'r cyngor mae'n ei ddarparu i gyrff cyhoeddus â'r Archwilydd Cyffredinol.

5 Adran 15(3) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
6 Adran 23(1) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
7 Adran 19(1)(b) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

## Arfer da

19 Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Comisiynydd i annog arfer gorau ymysg cyrff cyhoeddus, yn benodol o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant.[8]

20 Nid yw deddfwriaeth yn rhagnodi rôl benodol i'r Archwilydd Cyffredinol wrth annog arfer gorau. Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymrwymedig i wella gwasanaethau cyhoeddus ar draws Cymru drwy nodi a rhannu arfer da. Gwneir llawer o hyn gan Gyfnewidfa Arfer Da Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n dod â chyrff cyhoeddus ynghyd mewn seminarau dysgu ar y cyd.

21 Felly, bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn ceisio cyfleoedd i weithio gyda'i gilydd er mwyn cefnogi dysgu ar y cyd a hyrwyddo arfer da gan gyrff cyhoeddus o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Cynnal y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn

22 Bydd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Comisiynydd yn adolygu'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn yn rheolaidd ac yn ei adnewyddu fel y bo'n briodol.

8 Adran 19(1)(e) **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**